

Maes chwarae St Helen's Close

Plannu ar Ymyl y Coetir

Tynnu i ffwrdd sribedi 1m o asfalt, trin y ddaear a phlannu gyda'r egin-goed canlynol (0.5m-1m o uchder), i'w diogelu gan diwb bioddiraddadwy a'i osod gyda gwialil. Yr egin-goed i'w hamgylchynu gan domwellt rhisgl 500mm o led. Yr egin-goed i'w plannu tua 1m ar wahân mewn trefn ar hap. Tir moel i'w hadu gyda chymysgedd hadau ymyl coetir "Emorsgate Wild Flowers for Woodland - "Emorsgate Seeds" (wildseed.co.uk) (cyfanswm o 120g). Cymysgu'r hadau â thywod i gynorthwyo gyda hau cyfartal.

Enw Cyffredin	Enw Gwyddonol	Yn frodorol i'r Deyrnas Unedig?	Maint	Nifer y planhigion
Cwyrwialen	<i>Cornus sanguinea</i>	Ydy	>1m	10
Afal	<i>Malus domestica</i>	Nac ydy	>1m	10
Collen	<i>Corylus avellana</i>	Ydy	>1m	10
Ysgawen y Gors	<i>Viburnum opulus</i>	Ydy	>1m	10

Dôl Blodau Gwyllt

Tyweirch i'w stripio (ar wahân i ymyl glaswellt presennol 1m o led ar hyd ymyl y ffin, sydd i'w chadw). Tyweirch i gael ei symud o'r safle ar gyfer ei ailgylchu. Tir i'w drin a'i hadu'n ysgafn gyda chymysgedd blodau gwyllt (cyfanswm o 1 cilogram) "EM3F Special General Purpose Wild Flowers - Emorsgate Seeds" (wildseed.co.uk). Hadau i'w gymysgu â thywod i gynorthwyo gyda'r hau. Mae dolydd blodau gwyllt i'w thorri bob blwyddyn yn yr hydref gyda thoriadau'n cael eu cymryd i ffwrdd, a'u hymylon yn cael eu cynnal fel glaswellt byr.

Plannwr wedi'i Godi, ar gyfer Tyfu Bwyd

Plannwr (gweler y cynllun am y dimensiynau cyffredinol), i'w hadeiladu o drawstiau derw (pob trawst 200mm o led a 100mm o ddyfnder) i ddyfnder o 600mm (dyfnder o 6 trawst). Trawstiau i gael eu sgrinio at ei gilydd. Cwrs cyntaf i'w osod ar wely gwastad rwbet/morter yn ôl yr angen. Tu mewn y plannwr i'w leinio â daear-decstil. Plannwr y gwely planhigion i gael gwely draenio graean dwfn 75mm wedi'i orchuddio â chnu hidlo. Plannwr i'w llenwi hyd at lefel 50mm islaw'r ymyl uchaf gyda phriddglai tywodlyd di-chwyn (tua 7 m³). Gwely i'w blannu gyda 'phrecyn cychwyn' o 96 plyg llysiu cymysg. Rhywogaethau i gynnwys betys arian, betys, brocoli, cafelo nero, mefus, corbwmpenni, cennin, roced.

Wal Werdd (lorwg)


Tyllau siâp No.13 D (40cm x 20cm) i'w gwneud yn erbyn y wal, wedi'u cloddio i 300mm a'u llenwi â phriddglai tywodlyd i 50mm o dan yr wyneb a'u plannu gydag 13 iorwg brodorol Hedera helix, a gyflenwir mewn potiau 1 litr neu 1.5 litr, wedi'u gosod â gwialil gyda phridd moel wedi'i gymysgu â thomwellt rhisgl wedi'i dorri.




- Allwedd
- Plannwr wedi'i godi, ar gyfer tyfu bwyd
 - Wal werdd
 - Llwybr Synnhwyrdd
 - Wildflower Meadow
 - Plannu ar Ymyl y Coetir

Llwybr Synnhwyrdd


Bydd y llwybr yn cael ei wrthbwysu 500mm ar y ddwy ochr, gyda chymysgedd Blodau Gwyllt Emorsgate EM3F (Cyfanswm 100g). Dylid clirio unrhyw arwyneb presennol a'i drin yn ysgafn cyn ei hadu. Mae'r llwybr i fod yn 900mm o led gyda'r deunyddiau arwyneb canlynol, am yn ail mewn rhannau 450mm ac wedi'i ffinio â phren wedi'i danaleiddio (47x100mm):



Palmentydd cyffyrddol (slabiau 450x450mm)



Llechen Gymreig (Riven) (slabiau 450x450mm)



Tywod wedi'i gymysgu â mortar



Boncyffion derw wedi'u gosod ar eu pennau, diamedrau amrywiol ond fel arfer 100mm



Cerrig mân wedi'u gosod mewn mortar



Teils rwbet awyr agored (500 x 500mm, wedi'u tocio i ffitio)



Coblaau cerrig naturiol (80mm x 80mm)



Boncyffion derw wedi'u llifio mewn hanner diamedr, fel arfer 100mm

Prepared by The GIC on behalf of Monmouthshire County Council
Contact: gary@thegic.com

Date of Issue: 131223
GIC_0001101